
Archwiliadau cyntaf

# Cardiau arwyr y tywydd



# Laura

Laura ydw i, dw i'n defnyddio technegau gwyddonol gwahanol i ddeall a rhagweld beth fydd y tywydd yn y dyfodol. Mae angen i mi ddehongli data tywydd yn gywir er mwyn gwneud yn siŵr bod pobl yn cael y wybodaeth gywir am y tywydd. Pan oeddwn i'n iau, roeddwn i'n caru gwyddoniaeth ac yn gwybod fy mod i am weithio mewn gyrfa wyddonol.


© Crown Copyright 2022, Met Office

Met Office

# Misha

Misha ydw i, dw i’n defnyddio fy sgiliau rhaglennu cyfrifiadurol a mathemateg ochr yn ochr â’m gwybodaeth am sut mae ein hinsawdd yn gweithio i helpu eraill i ddeall sut mae ein hinsawdd wedi newid yn y gorffennol, sut mae’n newid heddiw a beth allai ddigwydd yn y dyfodol. Mae sefydliadau a busnesau ledled y DU a thu hwnt yn defnyddio rhywfaint o’r wybodaeth dw i’n ei chreu gyda fy nghydweithwyr i wneud penderfyniadau ynghylch sut i addasu i newid yn yr hinsawdd.


© Crown Copyright 2022, Met Office

# Anthony

Anthony ydw i, ac dw i’n helpu i gadw’r holl offer rydyn ni’n eu defnyddio i gasglu data am y tywydd yn gweithio. Mae hyn yn golygu bod rhaid i mi ddefnyddio fy sgiliau a gwybodaeth peirianneg i drwsio offer sydd wedi torri, neu weithio gydag eraill i ddylunio mathau newydd o offer y gallwn ni eu defnyddio ledled y byd i helpu i fonitro ein tywydd.


© Crown Copyright 2022, Met Office

# Paul

Paul ydw i, a fy ngwaith yw sicrhau bod yr holl leoedd y mae staff y Swyddfa Dywydd yn gweithio ynddynt yn ddiogel. Mae hyn yn golygu fy mod i nid yn unig yn gofalu am ein hadeilad pencadlys yng Nghaerwysg, ond hefyd yr holl leoedd eraill o amgylch y DU a thu hwnt lle mae staff y Swyddfa Dywydd wedi'u lleoli. Rhai dyddiau mae hyn yn golygu fy mod i'n trefnu pethau i gael eu trwsio, ar ddyddiau eraill efallai y byddaf yn trefnu i rentu adeilad newydd, ac weithiau byddaf hyd yn oed yn meddwl am syniadau newydd ynghylch sut y gellir defnyddio ein gweithleoedd yn y dyfodol.


© Crown Copyright 2022, Met Office

# Miranda

Miranda ydw i, a dw i'n rheoli ac yn darparu mynediad i gasgliad cenedlaethol o ddeunydd cyhoeddedig a heb ei gyhoeddi sy'n ymdrin â phob agwedd ar y tywydd a'r hinsawdd. Dw i'n helpu pobl i ddod o hyd i'r hyn y maent yn chwilio amdano i'w helpu i gynnal eu hymchwil, a dw i'n cynnal ymchwiliadau fy hun i'n helpu i ddysgu rhagor am hanes y Swyddfa Dywydd a rhai o'r bobl sydd wedi gweithio i ni a gyda ni dros y blynyddoedd.


© Crown Copyright 2022, Met Office

# James

James ydw i, a dw i’n defnyddio fy sgiliau i gyfathrebu ein gwasanaethau tywydd a hinsawdd hanfodol mewn ffordd sy’n cyrraedd miliynau o bobl ledled y byd. Yn gyffredinol mae hyn yn golygu fy mod i’n siarad â phapurau newydd am unrhyw straeon tywydd neu hinsawdd a allai fod yn digwydd. Dw i hefyd yn gweithio gyda’n timau cyfryngau cymdeithasol i gadw ein ffrydiau’n gyfredol. Dw i hefyd yn gweithio gyda llawer o’n harbenigwyr gwyddoniaeth a thechnoleg o bob rhan o’r sefydliad i hyrwyddo ein gwaith ac adeiladu ein henw da.


© Crown Copyright 2022, Met Office

Met Office

# Charlie

Charlie ydw i, a dw i’n gweithio gyda llawer o wahanol fusnesau i sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth gywir sydd ei hangen arnynt gennym i wneud y penderfyniadau gorau. Yn benodol, dw i’n gofalu am y sector trafnidiaeth, sy’n gyfres bwysig o randdeiliaid i ni gan fod y tywydd yn effeithio’n fawr arnynt. Boed yn awyrennau neu drenau, ceir neu gychod, mae’r tywydd yn effeithio ar sut rydym yn symud o gwmpas, felly mae llawer o sefydliadau am gael gwybodaeth tywydd gennym ni.





© Crown Copyright 2022, Met Office

Met Office

# Chimzi

Chimzi ydw i, a dw i’n helpu pobl ar draws y Swyddfa Dywydd ac o gwmnïau eraill hefyd, i ddeall mwy am y tywydd. Dw i’n helpu i hyfforddi ein meteorolegwyr newydd, fel eu bod yn gwybod popeth sydd ei angen arnynt i wneud eu gwaith. Dw i hefyd yn creu cynnwys fideo newydd ar gyfer ein sianeli dysgu ar-lein fel y gall aelodau’r cyhoedd gael gwybod mwy am wyddor tywydd a hinsawdd.





© Crown Copyright 2022, Met Office

Met Office

Rhagor o wybodaeth yma:
**[www.metoffice.gov.uk/schools](www.metoffice.gov.uk/schools)**


© Crown Copyright 2022, Met Office